**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Grant Shapps AS
Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
Nusrat Ghani AS
Y Gweinidog Diwydiant a Diogelwch Buddsoddiadau

21 Rhagfyr 2022

Annwyl gyfeillion

Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Mae fy Mhwyllgor i, ers peth amser, wedi bod yn cadw llygad ar gynllun Llywodraeth y DU ar gyfer cyfraith yr UE a ddargedwir, a gwnaethom ddechrau gofyn cwestiynau i Lywodraeth Cymru rai misoedd yn ôl.

Byddwch yn gwerthfawrogi mai'r hyn sy'n destun pryder i ni, fel deddfwyr, yw'r ffaith y byddai'r Bil yn galluogi Gweinidogion, yn hytrach na seneddau, i newid tirwedd reoleiddio a chyfreithiol y DU yn sylweddol.

Gyda'r Bil yn cael ei osod gerbron Senedd y DU, a chan ragweld y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r memorandwm cydsyniad sy'n debygol o fod yn angenrheidiol, cytunodd fy Mhwyllgor i geisio safbwyntiau rhanddeiliaid yng Nghymru a ledled y DU ar nifer o faterion, gan gynnwys i ba raddau y gallai'r Bil effeithio ar dirwedd reoleiddiol Cymru; penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â chynnal ei hasesiad ei hun o gyfraith yr UE a ddargedwir; ac a allai'r Bil gyflwyno cyfyngiadau newydd i Lywodraeth Cymru, sydd am wella'r safonau a oedd ar waith cyn Brexit, lle bo modd.

Mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon mawr inni ynghylch maint y dasg dan sylw a'r pwysau sylweddol a achosir gan ddyddiad machlud a ystyrir gan lawer fel un cwbl ddiangen, sef 31 Rhagfyr 2023. Mae'r dystiolaeth sydd wedi dod i law ar gael ar ein gwefan.

Yn y misoedd diwethaf mae Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru, Mick Antoniw AS, wedi gwneud sylwadau ar y tebygolrwydd y bydd y Bil yn arwain at raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn

cael ei llethu bron yn gyfan gwbl, ac ar y goblygiadau enfawr i Lywodraeth Cymru o safbwynt ariannol ac o ran adnoddau.

Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi gosod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol sydd ei angen ar gyfer y Bil gerbron y Senedd ac mae fy Mhwyllgor yn arwain y gwaith o'i ystyried.

Ar 5 Rhagfyr cawsom dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol ar y Bil a memorandwm cydsyniad deddfwriaethol cyfatebol Llywodraeth Cymru. Soniodd y Cwnsler Cyffredinol unwaith eto am ei bryderon y gallai'r broses o weithredu'r Bil lethu holl lywodraethau'r DU pe bai'n cael ei basio a'i ddeddfu. Ategwyd y pryderon hyn gan y Prif Weinidog ar 9 Rhagfyr mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog.

Er ein bod yn cadw'r hawl i ddal yn ôl ein sylwadau llawn ar y Bil, a memorandwm cydsyniad deddfwriaethol cyfatebol Llywodraeth Cymru, hyd nes y byddwn yn gallu cyhoeddi adroddiad cynhwysfawr yn y flwyddyn newydd, am resymau pragmatiaeth, byddem yn eich annog i wrando ar randdeiliaid ac ailystyried y dyddiad machlud o 31 Rhagfyr 2023 sydd wedi'i gynnwys yn y Bil. At hynny, ac eto er nad ydym wedi ystyried yn llawn holl oblygiadau'r Bil ar gyfer datganoli yng Nghymru a'r Senedd, ar hyn o bryd ni allwn weld unrhyw reswm pam na ddylai'r pŵer i ymestyn y dyddiad machlud, sydd wedi'i gynnwys yng nghymal 2, gael ei roi i Weinidogion Cymru hefyd ar gyfer materion datganoledig.

Rydym yn ymwybodol o ohebiaeth rhwng Ms Ghani a Phwyllgor y Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant (CEEAC) Senedd yr Alban. Mewn llythyr dyddiedig 13 Rhagfyr 2022, mae Ms Ghani yn nodi y bydd tystiolaeth ysgrifenedig ar y Bil yn cael ei rhoi i Bwyllgor CEEAC gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Byddem yn croesawu tystiolaeth ysgrifenedig debyg, yn enwedig o ran y cydweithio rhynglywodraethol gyda Llywodraeth Cymru ac effaith y Bil ar feysydd datganoledig yng Nghymru. Byddem yn ddiolchgar pe gellir cael hwn cyn gynted â phosibl er mwyn llywio ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru erbyn 9 Chwefror 2023.

Ar ôl iddo gael ei gyhoeddi, byddaf yn rhannu copi o adroddiad fy Mhwyllgor ar y Bil gyda chi.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad yn Llywodraeth Cymru, ac at Bwyllgor y Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**